NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Ertugliflozin gyda metformin ac atalydd dipeptidyl peptidase (DPP) 4 ar gyfer trin diabetes math 2

05 Mehefin 2019

Mae Ertugliflozin (Steglatro) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl, gyda chyffuriau a elwir yn metformin ac atalydd DPP 4, ar gyfer diabetes math 2 mewn oedolion os:

- na ellir rheoli lefelau glwcos yn eich gwaed drwy ddeiet ac ymarfer corff yn unig
- nad yw metformin ac atalydd DPP 4 yn rheoli'r diabetes
- nad yw pioglitazone neu sulfonylurea yn addas i chi.

Os nad ydych yn gymwys i gael ertugliflozin, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Diabetes UK, 0345 123 2399
- Sefydliad Ymchwil ac Iechyd Diabetes, 023 92 637808
- Surya Foundation, 020 8398 9292

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-3422-5



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.